Dogfen Ymgynghori

Ynghylch y cynnig i newid cymeriad Ysgol Gynradd Fairfield:

1. Trwy estyn ystod oed yr ysgol o 4-11 i 3-11 oed;

2. Trwy sefydlu uned feithrin yn yr ysgol.

Gallwn ddarparu'r ddogfen hon mewn Braille.

Mae modd darparu gwybodaeth hefyd mewn ieithoedd cymunedol eraill os bydd angen.

Cysylltwch â ni ar 02920 593225 i drefnu hyn.

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Esboniad ar y termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon	4
Cynnwys plant yn yr ymgynghoriad	5
Cynnwys rhieni, llywodraethwyr a staff	5
Cefndir y cynigion	8
Y cynnig	8
Map o'r dalgylch	9
Yr ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd	9
Pam rydym ni'n cynnig y newidiadau hyn?	10
Gwybodaeth am yr ysgol	11
Perfformiad cyfredol	13
Yr effaith a fwriedir ar ganlyniadau addysg	15
Sut byddai hyn yn effeithio ar ysgolion eraill?	16
Sut byddai hyn yn effeithio ar y ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig?	16
Manteision ac anfanteision y cynigion hyn	17
Dewisiadau amgen a ystyriwyd	18
Trefniadau derbyn ac ardal ddalgylch	19
Cyllid	20
Materion Adnoddau Dynol	20
Trefniadau Teithio gan Ddysgwyr	21
Effaith y cynnig ar yr Iaith Gymraeg	21
Dyddiadau allweddol	22
Cwestiynau Cyffredin	24
Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	27

Cyflwyniad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i chi ddysgu am y cynnig ad-drefnu ysgol sy'n cael ei roi gerbron er mwyn sefydlu uned feithrin yn Ysgol Gynradd Fairfield. Dyma eich cyfle i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a fydd yn cael eu hystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu sut i symud ymlaen.

Mae'r ddogfen hon yn egluro cynigion y Cyngor i wneud y canlynol:

- Estyn ystod oedran Ysgol Gynradd Fairfield o 3 i 11 oed
- Creu uned feithrin o fewn yr ysgol.

Mae ein proses ymgynghori yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a amlinellwyd yng Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2013, ac felly rydym yn gofyn i amrywiaeth o unigolion a grwpiau am eu barn ynghylch y cynigion hyn.

Fodd bynnag, cyn gwneud unrhyw benderfyniadau, mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cynnig nifer o gyfleoedd i unigolion a grwpiau sydd â diddordeb fynegi barn a safbwynt ynghylch y cynigion.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori â'r grwpiau canlynol:

Staff (addysgu ac eraill) yn Ysgol Gynradd Fairfield	Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Fairfield
Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Fairfield	
Bwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg	Cyngor Tref Penarth
Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf	Partneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar Bro Morgannwg (EYDCP)
Cynghorwyr Lleol	Aelodau Cynulliad (AC)/Aelodau Seneddol (AS)/Aelodau Cynulliad Rhanbarthol
Comisiynydd y Gymraeg	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
Ysgolion cynradd ac uwchradd cymdogol ym Mro Morgannwg	Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG)
Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De	Undebau Llafur
Estyn	Cyfarwyddwyr Addysg – Pob Awdurdod Cyfagos
Comisiynydd Lleol yr Heddlu a Throseddu	Gweinidogion Llywodraeth Cymru
Adran Drafnidiaeth y Cyngor	Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol

Tabl 1 Rhestr o'r grwpiau yr ymgynghorir â hwy fel rhan o'r broses ymgynghori

Esboniad ar y termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

Nifer Derbyn – Rhaid i bob ysgol a gynhelir dderbyn disgyblion hyd at y nifer derbyn cyhoeddedig o leiaf. Y nifer derbyn yw nifer y lleoedd i ddisgyblion sydd ar gael ym mhob grŵp blwyddyn

Cymeriad Ysgol – Proffil cyffredinol yr ysgol, er enghraifft, mae Ysgol Gynradd Fairfield yn Ysgol Gymunedol sy'n derbyn plant rhwng 4 ac 11 oed.

'CSCJES' - Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De. Gwasanaeth Gwella Ysgolion rhanbarthol pum awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg

'AGGCC' – Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Rheoleiddiwr gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, sy'n darparu sicrwydd annibynnol ynghylch ansawdd ac argaeledd gwarchodwyr plant a meithrinfeydd, ynghyd â lleoliadau gofal cymdeithasol eraill, ledled Cymru

DDA - Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Rhaid i ysgolion beidio â thrin disgyblion anabl yn llai ffafriol nag eraill. Rhaid iddynt wneud "addasiadau rhesymol" i sicrhau nad yw disgyblion anabl o dan anfantais sylweddol, a rhaid iddynt baratoi cynlluniau hygyrchedd ysgol i ddangos sut byddant yn cynyddu mynediad disgyblion anabl i addysg dros amser.

'EIA/AEG' - Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb. Proses yw [AEG] a luniwyd i sicrhau nad yw polisi, prosiect na chynllun yn camwahaniaethu yn erbyn unrhyw un sy'n agored i niwed neu o dan anfantais

'FSM' - Prydau Ysgol am Ddim

'ALI' – Awdurdod Lleol, sef Cyngor Bro Morgannwg

'CCD' - Cynorthwy-ydd Cynnal Dysgu

'Y Nifer ar y Gofrestr' - Nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgol

'PLASC' - Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Ym mis Ionawr bob blwyddyn, mae gwybodaeth wedi'i dilysu yn cael ei chasglu gan ysgolion i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr ym mhob ysgol, eu grwpiau oedran, eu cyfeiriadau cartref, eu hethnigrwydd a data ynghylch yr iaith Gymraeg, cymhwyster i dderbyn prydau ysgol am ddim, anghenion addysgol arbennig a iaith gyntaf

'ADY' – Anghenion Dysgu Ychwanegol

Gweithredu Ysgol – Pan fydd athro dosbarth neu bwnc yn nodi bod gan ddisgybl AAA maent yn darparu ymyriadau sydd dros ben neu yn wahanol i'r rhai a ddarperir fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol

Gweithredu Ysgol a Mwy - Pan fydd athro dosbarth neu bwnc a'r Cydlynydd AAA yn derbyn cyngor neu gefnogaeth gan arbenigwyr o'r tu allan, fel bod modd gweithredu

ymyriadau amgen dros ben neu sy'n wahanol i'r rhai a ddarperir ar gyfer y disgybl trwy Gweithredu Ysgol

Adran 106 – Gofynnir am gyfraniad Adran 106 gan bawb sydd â diddordeb mewn adeiladu datblygiad tai, tuag at gostau darparu seilwaith cymunedol a chymdeithasol, darpariaeth addysgol, cyfarpar mannau agored/chwarae, trafnidiaeth neu ofal iechyd ar gyfer y rhai fydd yn byw yn y cartrefi newydd

'SRB' - Cronfa Arbenigol o Adnoddau ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig

Meddu ar Ddatganiad – Mae gan blentyn Ddatganiad o Angen Addysgol (AAA) os bydd ganddo/ganddi anawsterau dysgu sy'n gofyn bod angen darpariaeth addysgol arbennig ar ei gyfer/chyfer. Ystyr anhawster dysgu yw bod y plentyn yn cael anhawster sylweddol fwy wrth ddysgu na mwyafrif y plant o'r un oed, neu bod gan y plentyn anabledd sy'n galw am gyfleusterau addysgol gwahanol i'r rhai y mae'r ysgol yn eu darparu'n gyffredinol i blant

Hysbysiad Statudol – Hysbysiad statudol yw cyhoeddi cynnig terfynol yn ffurfiol, os caiff ei gymeradwyo gan y Corff Llywodraethu (ni fydd yn cael ei ystyried ond wedi iddynt dderbyn yr holl ymatebion o'r broses ymgynghori. Mae hyn yn gyfreithiol ofynnol, fel yr amlinellwyd yng Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2013

Cynnwys plant yn yr ymgynghoriad

Mae'r Cyngor yn bendant o'r farn y dylai disgyblion Ysgol Gynradd Fairfield gael cyfle i fynegi eu barn ar y cynnig hwn.

Cynhelir gweithdy ymgynghori gyda chyngor ysgol Ysgol Gynradd Fairfield i gasglu eu barn ynghylch y cynnig. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn y sesiwn hon yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol. Cyflwynir yr adroddiad llawn at sylw Cabinet y Cyngor wedi'r cyfnod ymgynghori.

Cynnwys rhieni, llywodraethwyr a staff - sut gallwch chi gael rhagor o wybodaeth a rhoi eich barn

Mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal sesiynau galw heibio ar gyfer yr holl randdeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o'r broses.

Gwahoddir rhieni/gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion yn yr ysgol i fynychu'r sesiwn galw heibio i rieni, lle gallant ofyn unrhyw gwestiynau am y cynnig.

Byddwn bob amser yn gofyn i chi lenwi ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, gan mai sylwadau ysgrifenedig yn unig y gallwn eu derbyn.

Bydd dyddiad a lleoliad y sesiwn galw heibio yn cael eu harddangos gan yr ysgol a'r cylch chwarae trwy wefannau a llythyrau newyddion yr ysgol a'r cylch chwarae.

Rydym hefyd wedi trefnu cyfarfodydd i staff a chorff llywodraethu'r ysgol.

Mae'r ddogfen hon a rhagor o wybodaeth gefnogi ar gael ar wefan yr ysgol hefyd: www.valeofglamorgan.gov.uk/fairfieldnursery

Cewch hyd i ddolenni i'r ddogfen hon ar gyfryngau cymdeithasol trwy ffrwd Twitter Cyngor Bro Morgannwg a thudalen Facebook Cyngor Bro Morgannwg.

Isod nodir manylion dyddiadau'r cyfarfodydd ymgynghori:

Natur yr ymgynghoriad	Dyddiad/Amser	Lleoliad
Cyfarfod Staff – Ysgol	Dydd Mercher 01 Chwefror 2017 4.30pm – 5.30pm	Ysgol Gynradd Fairfield
Cyfarfod Llywodraethwyr – ysgol	Dydd Mercher 01 Chwefror 2017 6.00pm – 7.00pm	Ysgol Gynradd Fairfield
Sesiwn galw heibio i rieni	Dydd Llun 30 Ionawr 2017 3.30pm – 6.00pm	Ysgol Gynradd Fairfield

Tabl 2 - Cyfarfodydd Staff, Llywodraethwyr a Rhieni

Mae eich barn chi'n bwysig

Bydd y cyfnod ymgynghori'n parhau o **3 Ionawr 2017 tan 14 Chwefror 2017**. Gallwch ymateb i'n cynigion unrhyw bryd yn ystod y cyfnod hwn.

Mae eich barn yn bwysig i ni, a gallwch roi gwybod i ni mewn nifer o ffyrdd.

Gallwch chi wneud y canlynol:

- Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.valeofglamorgan.gov.uk/fairfieldnursery
- Mynychu'r sesiwn galw heibio a siarad â ni'n bersonol. Mae hon yn ffordd dda i gael atebion i unrhyw gwestiynau sydd gennych ynghylch y cynigion. Byddwn ni'n dal i ofyn i chi lenwi ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, gan mai sylwadau ysgrifenedig yn unig y gallwn eu derbyn
- Cwblhau a dychwelyd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad a roddir ar waelod y ffurflen ar ddiwedd y ddogfen hon, a'i hanfon i:

Rhadbost
Ymgynghori
Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chorfforaethol
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd y Cyngor
Heol Holton
Y Barri
CF63 4RU

Bydd pob ymateb ysgrifenedig a dderbyniwn ar y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei ystyried gan Gabinet y Cyngor cyn iddo benderfynu a ydyw am gyhoeddi hysbysiad statudol ynghylch y cynigion neu beidio.

Ni fydd ymatebion a dderbynnir gan ymgyngoreion sy'n gwrthwynebu'r cynigion hyn, er y cânt eu hystyried fel rhan o'r adroddiad ymgynghori, yn cael eu trin fel gwrthwynebiadau statudol. Byddai gwrthwynebiad statudol yn rhan o'r cyfnod statudol o rybudd gan Gabinet y Cyngor, os caiff y cynnig ei gymeradwyo yn y cam nesaf.

Os dymunwch wrthwynebu'r hysbysiad yng ngham nesaf y broses, os bydd yn mynd rhagddo, bydd angen i chi wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod statudol ar gyfer gwrthwynebiadau. Amlinellir y dyddiadau allweddol hyn yn Amserlen y Broses Statudol ar dudalen 22.

Sylwer bod rhaid i unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gyflwynir gynnwys enw a chyfeiriad postio llawn y person sy'n gwneud y sylwadau.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw **14 Chwefror 2017**. Yn anffodus, ni fydd ymatebion a dderbynnir wedi'r dyddiad hwn yn cael eu hystyried gan y Cyngor.

Cefndir y Cynnig

Ar hyn o bryd mae'r ddarpariaeth feithrin yn ardal Penarth yn cael ei chynnig gan amrywiaeth o feithrinfeydd preifat a rhai a gynhelir. Mae ysgolion cynradd ym Mhenarth a'r ardal o amgylch yn cynnig darpariaeth feithrin a gynhelir, ac eithrio ysgolion cynradd Evenlode a Fairfield.

Ar hyn o bryd mae lleoedd ysgol feithrin a gynhelir i blant sy'n byw yn ardal ddalgylch Ysgol Gynradd Fairfield yn cael eu darparu yn ysgol feithrin annibynnol Bute Cottage. Mae plant blwyddyn dderbyn Fairfield bob blwyddyn yn dod o amrywiaeth o ddarparwyr sector preifat a rhai a gynhelir.

Mae plant sy'n dod i Ysgol Gynradd Fairfield yn y derbyn yn cael mynediad i addysg feithrin gymysg ar draws Penarth a'r ardal o amgylch. Mae hyn yn heriol oherwydd bod y disgyblion yn pontio o'r amrywiol ddulliau o ymdrin â dysgu a ddefnyddir gan y gwahanol feithrinfeydd yn yr ardal.

Mae gan yr ysgol weledigaeth hirdymor o sefydlu uned feithrin, fel bod darpariaeth ar gael o fewn yr ysgol ar hyd y cyfnod sylfaen, a fyddai'n cynnig dilyniant yn addysg y plant.
Byddai uned feithrin yn darparu agwedd gyson at addysgu a chynllunio dysgu'r disgyblion, er dilyniant a chynnydd, a byddai'n cyfrannu at godi safonau ar draws yr ysgol.

Y Cynnig

Mae'r Cyngor yn cynnig sefydlu uned feithrin â 48 o leoedd rhan amser yn Ysgol Gynradd Fairfield. Er mwyn gallu cyflawni hyn, mae'r Cyngor yn bwriadu estyn ystod oed Ysgol Gynradd Fairfield o 4-11 oed i 3-11 oed. Lleolir yr uned feithrin ar dir presennol Ysgol Gynradd Fairfield.

Y bwriad yw y bydd y meithrin yn barod i groesawu plant ar ddechrau tymor y gwanwyn, sef mis Ionawr 2018. Byddai'r ysgol yn estyn ei chyfnod sylfaen i ddatblygu darpariaeth addysgol ar gyfer y plant hynny sy'n gymwys i fynychu'r meithrin o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 3 oed.

Mae adeilad cyfnod sylfaen eisoes ar gael yn Ysgol Gynradd Fairfield, i'w ddefnyddio ar gyfer darpariaeth feithrin. Trosglwyddwyd yr adeilad o ysgol gynradd arall yn y Fro. Bydd angen addasu rhywfaint ar yr adeilad meithrin arfaethedig i'w wneud yn addas ar gyfer darpariaeth feithrin, a thelir am gost hynny o gyllid a neilltuwyd yn rhaglen gyfalaf y Cyngor.

MAP O'R ARDAL DDALGYLCH

ARDAL DDALGYLCH YSGOL GYNRADD FAIRFIELD



I

Yr ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd

Darpariaeth Feithrin

- Mae darpariaeth feithrin cyfrwng Saesneg ar gael ym Meithrinfa Bute Cottage (mae Meithrinfa Bute Cottage yn rhoi blaenoriaeth i ddisgyblion sy'n byw yn ardaloedd dalgylch Ysgolion Cynradd Fairfield ac Evenlode) a Meithrinfa Cogan (mae Meithrinfa Cogan yn rhoi blaenoriaeth i ddisgyblion sy'n byw yn ardal Ysgol Gynradd Cogan)
- Mae darpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg ar gael yn Ysgol Gymraeg Pen y Garth
- Mae darpariaeth ysgol enwadol ar gael yn Ysgol Gynradd Gatholig St Joseph ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Andrews

Darpariaeth Gynradd

- Mae darpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg ar gael yn Ysgol Gynradd Fairfield
- Mae darpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg ar gael yn Ysgol Gymraeg Pen y Garth
- Mae darpariaeth ysgol enwadol ar gael yn Ysgol Gynradd Gatholig St Joseph ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Andrews

Darpariaeth Uwchradd

- Mae Ysgol Gynradd Fairfield yn un o ysgolion bwydo Ysgol Gyfun St Cyres
- Mae addysg uwchradd enwadol ar gael yn Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf yr Eglwys yng Nghymru yng Nghaerdydd ac Ysgol Gatholig St Richard Gwyn yn y Barri

Pam rydym ni'n cynnig y newidiadau hyn?

Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi ceisio symud tuag at fodel o ysgolion cynradd ar gyfer addysg 3-11 oed. Mae'r corff llywodraethu wedi mynegi awydd i sefydlu uned feithrin yn yr ysgol, trwy estyn ystod oed yr ysgol i 3-11 oed.

Yn dilyn ymweliad monitro ym mis Tachwedd 2015, nododd Estyn yr ysgol fel un lle dylai'r Cyngor weithredu'n fwy uniongyrchol i herio perfformiad. Er bod llawer o agweddau cadarnhaol wedi cael eu nodi, roedd gan yr ysgol nifer o anghenion datblygu i roi sylw iddynt o hyd.

Wrth arddangos ymrwymiad i gynnydd cyflym, cynaliadwy, yn yr ysgol, nodwyd nifer o rwystrau. Cydnabyddir nad oes gan yr ysgol ei dosbarth meithrin ei hun a bod plant yn trosglwyddo i ddosbarth derbyn yr ysgol o nifer o wahanol feithrinfeydd. Yn sgîl hynny, nid yw'r ysgol bob amser yn gwbl ymwybodol o'r niferoedd sydd i ddod i'r dosbarth derbyn ac mae pontio'r disgyblion, felly, yn her a ddwyseir gan yr amrywiol ddulliau o ymdrin â dysgu a ddefnyddir gan y gwahanol feithrinfeydd yn yr ardal. Mae'r ysgol hefyd yn cael trafferth cyrchu gwybodaeth ynghylch disgyblion o'r tu allan i'r ardal ddalgylch neu'r tu allan i'r sir.

Er bod niferoedd y disgyblion yn ymddangos yn gymharol iach, mae ymgeiswyr yn aml yn dewis Ysgol Gynradd Fairfield fel ail neu drydydd dewis os na chânt le yn ei dewis cyntaf o ysgol. Mae nifer o rieni plant sy'n byw yn yr ardal ddalgylch yn dewis anfon eu plant i ysgolion lleol eraill sydd ag uned feithrin. Mae hyn yn effeithio ar nifer y disgyblion yn yr ysgol.

Mae adroddiad diweddar gan y Gwasanaeth Addysg ar y Cyd yn datgan "Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn Fairfield. Mae'r canlyniadau yn y Cyfnod Sylfaen yn gryf ar y cyfan, er bod hynny'n llai gwir am berfformiad ym meysydd iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Heb amheuaeth mae arweinyddion yr ysgol mewn sefyllfa gref i allu cyflwyno darpariaeth feithrin yn yr ysgol a sicrhau ei bod yn cynnig profiad dysgu o ansawdd uchel i bob plentyn. Byddai profiad yr ysgol o godi lefel cyflawniad mwyafrif y disgyblion yn sicr yn cael ei gryfhau. Byddai agwedd gyson at addysgu a chynllunio dysgu'r disgyblion, er dilyniant a chynnydd, yn sicr yn cyfrannu at godi safonau ar draws yr ysgol".

Mae sefydlu ysgol gynradd un cyfnod i blant 3 – 11 oed yn cynnig model cyflwyno mwy effeithlon a chynaliadwy. Bydd yr ysgol yn gallu ymgorffori darpariaeth ar gyfer plant 3 a 4 oed mewn lleoliad Blynyddoedd Cynnar a Chyfnod Sylfaen o ansawdd uchel. Byddai uned feithrin yn caniatáu pontio di-fwlch ar gyfer plant oed meithrin i ddosbarth derbyn yr ysgol, ac yn cynnal niferoedd y disgyblion at y dyfodol.

Gwybodaeth am yr ysgol

Cyrchfan gyfredol disgyblion sy'n mynd i ysgolion meithrin Bute Cottage a Cogan

Dengys y tabl canlynol nifer y plant oedd yn mynychu meithrinfeydd Cogan a Bute Cottage ym mis Gorffennaf 2016 a Gorffennaf 2015 ac i ba ysgol y gwnaethon nhw drosglwyddo yn y mis Medi canlynol.

Ysgol Feithrin a Fynychwyd	Cyfanswm Nifer y Plant	Trosglwyddo i'r Dosbarth Derbyn yn:									
		Albert	Cogan	Evenlode	Fairfield	Llandochau	Sully	Victoria	Ysgol Gatholig St Joseph	Arall	Tu allan i'r Sir
Medi 2016											
Meithrinfa Bute Cottage	77	1	1	54	14	0	0	5	1	1	0
Meithrinfa Cogan	51	3	27	1	10	2	0	2	0	1	5
Medi 2015											
Meithrinfa Bute Cottage	54	0	0	43	10	0	0	1	0	0	0
Meithrinfa Cogan	59	2	27	5	9	7	1	0	2	1	5

Tabl 3 - Dadansoddiad o gyrchfannau meithrin ysgolion meithrin Bute Cottage a Cogan

Y galw cyfredol am leoedd - Ysgol Gynradd Fairfield

Gwybodaeth Gyffredinol am yr Ysgol							
Ysgol	**Math o Ysgol**	**Categori laith**	**Nifer derbyn**	**Capasiti'r ysgol**	**Y nifer ar y gofrestr**	**Ystod Oed**	**Lleoedd Meithrin rhan amser**
Ysgol	Ysgol Gymunedol	Cyfrwng Saesneg	45	315	292	4 - 11	AMH

Tabl 4 - Gwybodaeth am gapasiti a dalgylch - PLASC Ionawr 2016

Lefel Gyfredol y Lleoedd Gwag				
Ysgol	**Capasiti'r Ysgol**	**Y Nifer ar y gofrestr**	**Lleoedd Gwag**	**% y Lleoedd Gwag**
Fairfield	315	292	23	7.3%

Tabl 5 - data PLASC ar 15 Ionawr 2016

Y galw am leoedd yn y dyfodol

Mae'r tabl canlynol yn darparu data ynghylch y nifer ar y gofrestr yn ddiweddar, a data ynghylch y nifer a ragwelir ar y gofrestr.

Data ynghylch y nifer ar y gofrestr yn ddiweddar, a'r nifer a ragwelir ar y gofrestr mewn ysgolion											
Ysgol	**Capasiti'r Ysgol ar hyn o bryd**	**Ionawr 2012**	**Ionawr 2013**	**Ionawr 2014**	**Ionawr 2015**	**Ionawr 2016**	**Rhagamcan 2016/17**	**Rhagamcan 2017/18**	**Rhagamcan 2018/19**	**Rhagamcanion 2019/20**	**Rhagamcanion 2020/21**
Ysgol Gynradd Fairfield	315	257	281	296	295	292	291	284	282	283	283

Tabl 6- y nifer diweddar a'r nifer a ragwelir ar y gofrestr ar gyfer Ysgol Gynradd Fairfield.

Mae lle ar gyfer 315 o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Fairfield. Ar hyn o bryd mae 257 o blant oed cynradd yn byw o fewn ffiniau'r dalgylch, a 46 o blant oed meithrin.

Mae 292 o blant ar y gofrestr yn Fairfield, ac mae 105 ohonynt (36%) yn byw oddi mewn i ddalgylch yr ysgol. Mae cyfanswm o 187 o blant (64%) sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol yn mynychu'r ysgol, ac mae 44 o'r rheiny yn byw tu allan i ardal Bro Morgannwg. Er y rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn parhau'n rhesymol iach yn ystod y pum mlynedd nesaf, byddai sefydlu uned feithrin yn annog mwy o blant lleol i fynychu'r ysgol yn y dyfodol.

Mae'r plant sy'n dod i'r ysgol yn y dosbarth derbyn yn aml yn cyrraedd yn sgîl y ffaith bod eu rhieni wedi nodi'r ysgol fel ail neu drydydd dewis. Disgwylir y byddai uned feithrin yn gwyrdroi'r tueddiad hwn trwy gynnig darpariaeth i blant lleol, a fyddai'n mynd ymlaen i fynychu'r ysgol drwy fynd i'r dosbarth derbyn.

Perfformiad cyfredol

Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos â chorff llywodraethu'r ysgol i sicrhau bod safonau uchel yn yr ysgol, bod y dysgu a'r addysgu o ansawdd uchel, a bod yr arweinyddiaeth a'r llywodraethu yn gryf. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda dau sefydliad i fonitro perfformiad ysgolion a chefnogi gwella ysgolion.

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru. Mae'n un o gyrff y Goron, a sefydlwyd o dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond mae'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru o dan adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Sefydlwyd Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (CSCJES) ym mis Medi 2012. Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r Consortiwm i gefnogi a herio holl ysgolion Bro Morgannwg.

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau ysgolion. Pwrpas arolygiad yw canfod cryfderau a gwendidau ysgolion er mwyn iddynt fedru gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion *(Estyn).*

Mae'r fframwaith arolygu cyffredin a gyflwynwyd gan Estyn ym mis Medi 2010 yn gofyn bod yr arolygwyr yn ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae'r arolygwyr hefyd yn rhoi dyfarniad cyffredinol ar berfformiad cyfredol yr ysgol a'i rhagolygon ar gyfer gwelliant. Wrth werthuso fel hyn, mae arolygwyr yn defnyddio graddfa 4-pwynt:

Dyfarniad	Beth mae'r dyfarniad yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Cryfderau yn gorbwyso meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Meysydd pwysig i'w gwella'n gorbwyso'r cryfderau

Tabl 7 - Meini Prawf Arolygu Estyn

Cafodd Ysgol Gynradd Fairfield arolwg gan Estyn ym mis Tachwedd 2010 o dan y raddfa 4-pwynt a nodwyd uchod ar gyfer arolygiadau ar ôl mis Medi 2010.

Adroddiad Estyn

Yn yr arolwg o Ysgol Gynradd Fairfield a gynhaliwyd yn 2010, **"Da"** oedd asesiad yr ysgol. Roedd yr adroddiad yn datgan bod rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwelliant yn dda oherwydd bod "Gan yr Arweinyddion ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella; mae'r broses hunan-werthuso yn gywir... mae'r camau gweithredu wedi arwain at welliant mesuradwy... ac mae'r targedau cyfredol yn canolbwyntio ar wella safonau"

Yn ystod yr arolwg, atebodd yr arolygwyr y tri chwestiwn allweddol fel a ganlyn;

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? **Da**
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? **Da**
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? **Da**

Gellir cael hyd i adroddiad arolygu Ysgol Gynradd Fairfield yn:

https://www.estyn.gov.wales/provider/6732117

Dull Llywodraeth Cymru o gategoreiddio ysgolion

Yn 2014 cyflwynodd Llywodraeth Cymru system newydd o gategoreiddio a oedd yn ystyried safonau pob ysgol ochr yn ochr â gallu pob ysgol i wella, er mwyn deall lefel y gefnogaeth y mae angen i sefydliadau megis CSCJES ei rhoi i bob ysgol er mwyn iddynt gyrraedd eu targedau.

Disgrifir y system gategoreiddio isod:

Categori	Beth mae'r categori yn ei olygu
Gwyrdd	Ysgol hynod effeithiol sy'n cael ei rhedeg yn dda, gydag arweinyddiaeth gref, ac sy'n eglur ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer gwelliant
Melyn	Ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod pa feysydd y mae angen iddi eu gwella.
Ambr	Ysgol y mae angen iddi wella, ac y mae angen help arni i ganfod y camau i wella neu i sicrhau bod newid yn digwydd yn gyflymach.
Coch	Ysgol sydd â'r angen mwyaf am wella, a fydd yn derbyn cefnogaeth ddwys ar unwaith.

Tabl 8- Meini Prawf Llywodraeth Cymru 2015

Er mwyn penderfynu ar y categori lliw fel yr eglurir yn y tabl uchod, rhoddir ysgolion mewn un o bedwar grŵp o ran safonau (1-4) ac ar gyfer cyflawni gwelliant (A-D), gydag un yn cynrychioli'r grŵp uchaf ar gyfer safonau ac A yn cynrychioli'r uchaf o ran gallu i wella.

I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun categoreiddio newydd, gweler canllaw Llywodraeth Cymru i rieni ar y System Newydd ar gyfer Categoreiddio Ysgolion:
http://gov.wales/docs/dcells/publications/150119-parents-guide-en.pdf

Yn 2016 roedd Ysgol Gynradd Fairfield yn y categori ‘melyn’, fel y gwelir yn nhabl 9 isod.

Categori amodol yr ysgol ar gyfer 2017 yw melyn hefyd, yn deillio o radd 2 am safonau a B am y gallu i wella.

Ysgol	Gradd Safonau	Gallu i Wella	Categori Cyffredinol
Ysgol Gynradd Fairfield	3	B	Melyn

Tabl 9 - Categorïau safonau a gwelliant - Ionawr 2015

Yr effaith a fwriedir ar ganlyniadau addysg

Bwriad y cynigion yw creu darpariaeth gynradd ddi-fwlch i blant 3-11 oed er mwyn gwella safonau yn Ysgol Gynradd Fairfield.

Byddai'r cynnig hefyd yn diwallu'r galw yn y dyfodol ac yn darparu lleoedd meithrin ychwanegol o ansawdd uchel i'r awdurdod lleol yn ardal Penarth.

Canlyniadau (safonau a llesiant)

Mae'r cynnig yn cefnogi dilyniant a pharhad yn nysgu'r plant o 3 oed, ac yn darparu cydlyniant rhwng y sector meithrin a’r cynradd, gan ddarparu amgylchedd dysgu o ansawdd uchel i blant. Bydd hyn yn galluogi pob plentyn i ddatblygu eu galluoedd i fod yn ddysgwyr llwyddiannus yn ifanc.

Byddai pontio’r disgyblion rhwng y meithrin a’r derbyn yn cael ei hwyluso’n well, gyda mwy o ffocws ar safonau. Byddai hyn yn cael ei gyflawni'n hwylus trwy broses gyffredin o olrhain, monitro ac ymyriadau, o'r meithrin hyd at flwyddyn dau ac wedi hynny.

Bydd effaith debygol y cynigion ar allu'r ysgol i ddarparu'r cwricwlwm llawn yn y Cyfnod Sylfaen a phob cyfnod addysg allweddol yn gadarnhaol.

Darpariaeth

Byddai'r dull o gynllunio a darparu'r cyfnod sylfaen (o'r meithrin i flwyddyn dau) yn cael ei wella trwy sefydlu uned feithrin yn yr ysgol. Gallai cynnydd disgyblion wrth ddysgu gael ei olrhain yn fwy systematig ar draws pedair blwyddyn olynol, yn hytrach nag un flwyddyn mewn meithrinfa gyda thair blynedd yn yr ysgol yn dilyn, a bydd hynny'n hwyluso dilyniant. Byddai agwedd fwy cyfannol at ymyrraeth yn cael effaith gadarnhaol ar safonau.

Arweinyddiaeth a llywodraethu

- Bydd yr ysgol yn parhau i feddu ar weledigaeth a rennir a strategaeth eglur sydd wedi gwella deilliannau llawer o ddysgwyr
- Bydd arweinyddiaeth yr ysgol yn parhau'n agored i her ac yn anelu at welliant parhaus.
- Bydd gan yr ysgol weledigaeth sengl ar gyfer arwain a rheoli'r ysgol, o'r meithrin i flwyddyn 6, a fyddai'n gwella ei gallu i wella ymhellach.

Cyflwr adeiladau a chyfleusterau'r ysgol

Nod y Cyngor yw darparu'r cyfleusterau gorau posibl er mwyn cefnogi pobl ifanc y Fro yn eu dysgu. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolygon cyflwr ym mhob ysgol yn ystod 2010, a barnwyd bod yr ysgol yn foddhaol. Bob pum mlynedd mae'r Cyngor yn cynnal arolwg cyflwr o'r holl ysgolion ar draws Bro Morgannwg. Cynhaliwyd yr arolwg diweddaraf o'r ysgol yng ngwanwyn 2015.

Mae arolwg cyflwr yn cynnwys asesiad gweledol o holl rannau amlwg yr adeiladau, er mwyn canfod diffygion pwysig ac eitemau sydd mewn cyflwr gwael.

Ysgol	Math o Ysgol	Cyflwr adeilad yr ysgol	Cost y gwaith atgyweirio a nodwyd
Ysgol Gynradd Fairfield	Cymunedol	Boddhaol	£130,000 (ar ôl clirio ac amnewid yr hen gaban yn ystod haf 2015.)

Tabl 10 - Canlyniadau Arolwg Cyflwr 2015

Nododd yr adroddiad fod angen lefel gymedrol o fuddsoddiad i sicrhau bod safonau'r ddarpariaeth yn cael eu cynnal.

Bydd y cynigion yn cynnwys cyfleusterau i gynnig darpariaeth feithrin o ansawdd uchel yn yr ysgol.

Sut byddai hyn yn effeithio ar ysgolion eraill?

Mae'r cynnig yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw ysgolion eraill yn yr ardal leol ac amgylchynol. Er bod y cyngor yn cynyddu'r cyflenwad o leoedd meithrin yn ardal Penarth, mae cymaint o alw bob blwyddyn ar hyn o bryd fel bod lle'n cael ei wrthod i nifer o

blant yn aml mewn meithrinfeydd a gynhelir, fel eu bod yn methu derbyn lleoedd mewn ysgol feithrin.

Bydd y cynnig yn sicrhau bod digon o leoedd ar gael i ymateb i'r galw lleol. Mae'n bosibl y gallai darparu'r uned feithrin ddenu rhai rhieni a fyddai wedi gwneud cais i ysgolion eraill, ond bydd yn darparu mwy o ddewis i rieni, ac fe allai sicrhau bod modd ymateb i ganran uwch o ddewisiadau rhieni.

Sut byddai hyn yn effeithio ar y ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)?

Byddai'r uned feithrin yn golygu bod modd adnabod disgyblion ag AAA yn gynnar a darparu ymyrraeth a fyddai'n cael ei adlewyrchu ar ffurf gwell pontio a gwell deilliannau addysgol ar gyfer disgyblion unigol.

Nid oes gan yr ysgol ganolfan adnoddau arbenigol gysylltiedig, ac mae'n darparu cymorth arbenigol i blant sydd ag anghenion a nodwyd mewn lleoliad cynhwysol o fewn yr ysgol.

Mae'r tabl canlynol yn darparu gwybodaeth am anghenion y disgyblion cyfredol.

2015		Fairfield	ALI	Cymru
Canran y Disgyblion AAA	Gweithredu Ysgol	13%	13%	12.3%
	Gweithredu Ysgol a Mwy	10%	6%	7.4%
	Meddu ar Ddatganiad	0%	1%	0.7%

Tabl 11 - Amlinelliad o'r anghenion AAA ar gyfer plant oed ysgol gorfodol - PLASC Ionawr 2016

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm wedi'i addasu sy'n ymateb i alluoedd y plentyn unigol. Mae'r ysgol yn rheoli sut darperir y cwricwlwm hwn mewn modd gwahanol, ochr yn ochr â meysydd eraill o ddarpariaeth AAA ar gyfer y plant hynny sydd ag anghenion dysgu cymhleth.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod pob plentyn sydd ag anhawster dysgu yn cael eu hintegreiddio ar draws pob rhan o'r cwricwlwm. Mae'r ysgol yn cyflogi cynorthwywyr cynnal dysgu (CCD) i gefnogi plant yn amgylchedd y dosbarth.

Beth yw manteision y cynigion hyn?

Bernir bod y manteision addysgol canlynol i'r cynnig:

- Un cwricwlwm cydlynus ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.
- Byddai'r plant yn elwa o brofi gweithgareddau addysg gynnar i gynnal eu dysgu a'u datblygiad, fel rhan o gwricwlwm ysgol ehangach, dan arweiniad athro cymwysedig.
- Ateb cost-effeithiol ar gyfer estyn y ddarpariaeth feithrin a fydd yn gwella'r addysg gynradd cyfrwng Saesneg ym Mhenarth.
- Hwyluso gwell pontio i'r plant.
- Canfod grwpiau agored i niwed yn gynnar. Bydd hyn yn golygu bod modd canfod anghenion plant cyn gynted â phosibl.
- Bydd dilyniant yn y ddarpariaeth a fydd yn adlewyrchu ethos a diwylliant yr ysgol.
- Datblygu cysylltiadau cryf ac effeithiol â rhieni o'r cyfle cynharaf posibl.

- Mynediad hwylus i deuluoedd sydd eisoes yn adnabod yr ysgol ac yn ymddiried ynddi.
- Byddai'n darparu cyfle i blant fynychu'r meithrin ar yr un safle â'u brodyr a'u chwiorydd hŷn. Dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar amser y rhieni a'r anawsterau logisteg a achosir yn sgîl darparwr gofal plant gwahanol.

Beth yw anfanteision posibl y cynigion hyn?

- Fe allai creu uned feithrin yn yr ysgol effeithio ar y niferoedd mewn unedau meithrin ac ysgolion eraill yn yr ardal. Gan fod nifer o rieni yn methu â sicrhau lle yn ysgolion Penarth bob blwyddyn, bernir mai bach iawn fydd yr effaith.
- Gallai fod mwy o dagfeydd traffig o amgylch safleoedd yr ysgol ar adegau gollwng/casglu. Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda chorff llywodraethu'r ysgol i ddatblygu Cynllun Teithio i gyfyngu cymaint â phosibl ar unrhyw aflonyddu.
- Gallai'r mân addasiadau i'r adeiladau presennol achosi peth aflonyddu, er bod profiad yn dangos y gellir cyfyngu cymaint â phosibl ar hyn, ac nad yw addysg y plant yn dioddef.
- Aflonyddu posibl ar y plant oed meithrin wrth iddynt ymgyfarwyddo â'u hamgylchedd newydd.

Cynllun pontio os caiff y cynigion eu cymeradwyo

Byddai cynigion y Cyngor yn golygu bod modd cyflawni'r addasiadau i adeiladau yn ystod tymor yr hydref 2017. Bydd cyfle i rieni sydd wedi cael cynnig lle yn y meithrin ymweld â'r ysgol yn ystod tymor yr haf, er na fyddant yn gallu ymweld â'r uned feithrin ei hun.

Y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynigion

Mae'r cynnig wedi cael ei ddatblygu ar sail rhagdybiaeth y bydd y cyllid sy'n ofynnol ar gyfer addasiadau i adeiladau yn cael ei ddarparu gan y Cyngor.

Mae'r adeilad sydd mewn golwg ar gyfer y meithrin eisoes ar y safle. Bydd angen peth gwaith addasu arno i'w wneud yn addas ar gyfer y ddarpariaeth, ac amcangyfrifir y bydd hynny'n costio rhyw £20,000, sydd wedi'i neilltuo yn y rhaglen gyfalaf.

Byddai Cabinet y Cyngor yn cwrdd i benderfynu ar y cynnig ym mis Mehefin 2017. Bydd y derbyniadau i ddosbarthiadau meithrin ysgolion y Fro ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18 eisoes wedi'u cytuno cyn penderfyniad y Cabinet, felly mae yn bosibl y bydd llai o blant yn mynychu uned feithrin Fairfield yn ei blwyddyn gyntaf.

Gwneir newidiadau ac addasiadau i'r adeilad yn ystod tymor yr hydref 2017, gan aflonyddu cyn lleied â phosibl ar blant yr ysgol.

Dewisiadau amgen a ystyriwyd

Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi ceisio symud tuag at fodel o ysgolion cynradd ar gyfer addysg 3-11 oed. Mae'r Corff Llywodraethu wedi mynegi awydd i sefydlu

uned feithrin yn yr ysgol. Mae adeilad gwag y cyfnod sylfaen yn golygu bod cyfle gan y Cyngor i wireddu'r uchelgais hon gan fuddsoddi isafswm o gyfalaf.

Cynnal y Sefyllfa Bresennol

Yr unig opsiwn i'w hystyried oedd cynnal y sefyllfa bresennol, na fyddai'n gwireddu'r gofynion angenrheidiol o ran safonau a manteision darpariaeth gynradd ddi-fwlch (fel y manylwyd yn yr adran manteision). Ni fyddai cynnal y sefyllfa bresennol yn cyflawni dyheadau'r Cyngor ar gyfer Ysgol Gynradd Fairfield. Byddai uned feithrin yn helpu i gynnal niferoedd y disgyblion yn y dyfodol ac yn darparu pontio di-fwlch i mewn i'r dosbarth derbyn i blant meithrin. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn cael bod pontio disgyblion yn heriol i'r rhai sy'n mynd i'r dosbarth derbyn, ac mae'n aml yn aneglur ynghylch nifer y disgyblion fydd yn dod i'r ysgol.

Trefniadau derbyn ac ardal ddalgylch

Bydd y trefniadau derbyn ar gyfer y flwyddyn dderbyn yn parhau heb eu newid o ganlyniad i'r cynigion hyn. Bydd ardal ddalgylch yr ysgol yn parhau yr un fath.

Trefniadau derbyn ar gyfer addysg feithrin

Y Cyngor yw'r Awdurdod Derbyniadau ar gyfer yr holl ysgolion meithrin cymunedol a gynhelir a'r dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion cymunedol a gwirfoddol reoledig ym Mro Morgannwg. Ni ellir dyrannu lle mewn meithrinfa gymunedol na gwirfoddol reoledig heb gyflwyno cais ffurfiol. Fel arfer bydd y Cyngor yn derbyn plant sy'n dair oed ar ddiwrnod cyntaf tymor yr ysgol (1 Medi, 1 Ionawr neu 1 Ebrill) hyd at gapasiti cymeradwy uned feithrin yr ysgol.

Bydd rhieni sy'n dymuno gwneud cais am le yn yr uned feithrin yn gallu cyflwyno cais trwy wefan Bro Morgannwg unwaith mae penderfyniad i agor yr uned feithrin wedi'i wneud. Er y derbynnir ceisiadau ar gyfer disgyblion oed meithrin hŷn, dangosir isod yr ystod oedran ifancaf pryd bydd plentyn yn gymwys i wneud cais am le yn y meithrin;

Plant a anwyd ar y dyddiadau hyn a rhyngddynt	Tymor eu derbyn i ysgol feithrin (pan fydd lle ar gael)
1 Medi a 31 Rhagfyr 2014	Ionawr 2018
1 Ionawr 2015 a 31 Mawrth 2015	Ebrill (Pasg) 2018

Trefniadau derbyn ar gyfer y flwyddyn dderbyn

Ni fydd gan blant sy'n mynychu dosbarth meithrin hawl awtomatig i barhau â'u haddysg yn yr un ysgol wrth symud i fyny i ddosbarth derbyn, p'un a ydynt yn byw yn yr ardal ddalgylch neu'r tu allan iddi. Bydd gofyn bod rhieni'n cwblhau ffurflen gais ar gyfer eu dewis ysgol. Os ceir mwy o geisiadau nag sydd o leoedd yn y dosbarth derbyn, dyrannir lleoedd gan gymhwyso meini prawf y Cyngor pan fydd gormodedd o geisiadau, gan roi blaenoriaeth i blant sy'n byw yn ardal ddalgylch yr ysgol, dros ben eraill. Nid yw mynychu'r meithrin yn ffactor sy'n penderfynu wrth gymhwyso'r meini prawf derbyn mewn achosion pan fydd gormodedd o geisiadau.

Bydd mynediad i'r dosbarth derbyn yn dilyn yr un gweithdrefnau ag o'r blaen ar gyfer yr ysgol. Mae gofyn bod pob rhiant yn mynegi dewis trwy gyflwyno cais am yr ysgol y maent yn dymuno i'w plentyn ei fynychu/drosglwyddo iddi, hyd yn oed os honno yw ysgol y dalgylch. Yn nhymor yr hydref 2017, gwahoddir rhieni i wneud cais am yr ysgol gynradd o'u dewis ar gyfer mis Medi 2018.

Mae manylion llawn holl ysgolion Bro Morgannwg a'r broses o wneud cais amdanynt i'w gweld yn y **Canllaw i Rieni ar gyfer Derbyniadau Ysgol yn y Fro, 2016-17**, sef

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/working/education_and_skills/schools/admissions/school%20admissions.aspx .

Cyllid - buddsoddiad cyfalaf

Mae adeilad cyfnod sylfaen eisoes ar gael yn Ysgol Gynradd Fairfield, a gellid ei ddefnyddio ar gyfer darpariaeth feithrin.

Bydd angen addasu rhywfaint ar yr adeilad meithrin arfaethedig i'w wneud yn addas ar gyfer darpariaeth feithrin. Amcangyfrifir mai cost hynny fyddai £20,000, ac mae cyllid wedi'i neilltuo ar ei gyfer yn Rhaglen Gyfalaf y Cyngor.

Cyllid - costau cynnal

Telid am gostau refeniw ychwanegol y nifer cynyddol o ddisgyblion a ddisgwylir yn y meithrin trwy'r fformwla ariannu ysgolion, sy'n dyrannu mwyafrif cyllid ysgolion ar sail niferoedd disgyblion. Byddai cynnydd cyffredinol yn nifer y disgyblion ar draws Bro Morgannwg yn arwain at gynnydd yn y Grant Cynnal Refeniw gan Lywodraeth Cymru, a fyddai'n cael ei ddyrannu i'r ysgol i gefnogi'r galw ychwanegol am ddysgu ac addysgu.

Materion Adnoddau Dynol

Os sefydlir yr uned feithrin, byddai angen i'r corff llywodraethu a'r pennaeth ddatblygu strwythur staffio newydd ar gyfer y cyfnod sylfaen estynedig yn yr ysgol o fis Ionawr 2018. Byddai newidiadau staffio yn amodol ar ymgynghori llawn â'r staff a'r undebau llafur perthnasol.

Bydd y Cyngor yn cefnogi llywodraethwyr, pennaeth a staff yr ysgol gydag unrhyw newidiadau y gall fod eu hangen.

Bydd yr ysgol yn gallu cyrchu'r polisïau a'r gweithdrefnau adnoddau dynol, gan gynnwys y polisïau recriwtio. Bydd y gwasanaeth adnoddau dynol yn gweithio'n agos gyda'r llywodraethwyr i sicrhau bod cyfathrebu rheolaidd a chlir yn digwydd.

Materion Trafnidiaeth

Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith uniongyrchol ar lefelau traffig yn yr ardal o amgylch yr ysgol. Yn y mwyafrif o achosion, bydd gan y plant oed meithrin sy'n byw yn y dalgylch lai o bellter i'w deithio nag ar hyn o bryd. Fel arfer mae ysgolion yn trefnu amserau cychwyn a

gorffen graddedig ar gyfer plant meithrin o'u cymharu â'r grwpiau hŷn, felly rhagwelir na fydd fawr ddim effaith ar dagfeydd traffig yn yr ardal.

Trefniadau Teithio gan Ddysgwyr

Nid oes cynlluniau fel rhan o'r cynigion hyn i newid polisi'r Cyngor ar gludo plant i ysgolion ac oddi yno.

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant i'r ysgol am ddim i ddisgyblion oed ysgol statudol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded o'r ysgol briodol agosaf.[1]

"Diffinnir hyn fel mwy na 2 filltir o'r ysgol addas agosaf yn achos Disgyblion Cynradd a mwy na 3 milltir yn achos Disgyblion Uwchradd. Mesurir y pellteroedd yn ôl y llwybr cerdded agosaf sydd ar gael."[2]

Nid yw'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer plant oed meithrin, heblaw am y plant hynny sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).

Gellir gweld polisi'r Cyngor ar gyfer cludiant i'r ysgol ar wefan y Cyngor: http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/working/education_and_skills/schools/school_transport/school_transport.aspx

Effaith y cynnig ar yr Iaith Gymraeg

Bydd plant sy'n ymuno â'r meithrin o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 3 oed yn cael cyfle i ddysgu Cymraeg achlysurol fel rhan o Gwricwlwm Cymraeg integredig Blynyddoedd Cynnar yr ysgol.

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

Cynhelir Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, a bydd yn cael ei gynnwys yn adroddiad yr ymgynghoriad.

Ystyried yr effaith ar y gymuned

Bydd sefydlu dosbarth meithrin yn yr ysgol yn gwella effaith yr ysgol ar y gymuned trwy ddarparu mwy o gyfleoedd i deuluoedd â phlant cyn-ysgol ddod yn rhan o'r ysgol pan fydd y plant yn ifancach.

Bydd yr ysgol yn parhau i gynnig gweithgareddau ar gyfer disgyblion y tu allan i oriau ysgol.

Ni fydd y cyfleusterau presennol sydd ar gael i ddisgyblion, y gymuned a rhieni yn dioddef effaith niweidiol yn sgîl y cynigion hyn.

Gellir darllen yr Asesiad llawn o'r Effaith ar y Gymuned trwy ddilyn y ddolen ganlynol: www.valeofglamorgan.gov.uk/fairfieldnursery

[1] Polisi ar gyfer Darparu Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol (Diwygiwyd yn Chwefror 2010)
[2] Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

Dyddiadau allweddol

Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad hwn yn cael ei goladu a'i grynhoi, a chyflwynir adroddiad i'r Cabinet. Bydd yr adroddiad ymgynghori ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor. Mae copïau ar gael ar gais hefyd trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt a geir yn y ddogfen hon.

Mae nifer o gamau pellach y bydd yn rhaid i'r Cyngor fynd trwyddynt cyn gwneud penderfyniad terfynol. Cyflwynir y camau hynny isod:

Y Broses Statudol	Amserlen
Cyflwyno'r ddogfen ymgynghori	3 Ionawr 2017
Y dyddiad cau ar gyfer mynegi barn ar y cynigion	14 Chwefror 2017
Yr adroddiad ymgynghori yn cael ei ystyried gan y Cyngor a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.	20 Mawrth 2017
Cyflwyno hysbysiad statudol, ac yn ystod y cyfnod hwnnw gwahoddir gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol	24 Ebrill 2017
Diwedd Cyfnod yr Hysbysiad Statudol	22 Mai 2017
Penderfyniad gan Gabinet y Cyngor	Mehefin 2017
Cyhoeddi'r adroddiad gwrthwynebu ar wefan Cyngor Bro Morgannwg o fewn saith niwrnod i'r penderfyniad, a hysbysu ynghylch y penderfyniad	Mehefin 2017
Gweithredu'r cynnig i sefydlu uned feithrin yn Ysgol Gynradd Fairfield	Ionawr 2018

Tabl 13 - Amserlen ar gyfer ymgynghori

Gall yr amserlen arfaethedig newid.

Y Cyfnod Ymgynghori

Bydd y cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig hwn yn cychwyn ar 3 Ionawr 2017 ac yn dod i ben ar 14 Chwefror 2017. Gweler tudalen 6 i gael manylion pellach ynghylch sut mae ymateb a mynegi eich barn.

O fewn 13 wythnos ar ôl 14 Chwefror 2017 bydd adroddiad ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Hefyd bydd copïau papur o'r adroddiad ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd gan ymgyngoreion yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn darparu ymateb y Cyngor i'r materion hyn. Hefyd bydd yr adroddiad yn cynnwys barn Estyn ar y cynigion.

Bydd y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ddylid symud ymlaen gyda'r cynigion neu beidio.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda'r cynigion, bydd rhaid i'r Cyngor gyhoeddi hysbysiad statudol.

Hysbysiad Statudol

Byddai'r hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bro Morgannwg, ac yn cael ei bostio wrth y brif fynedfa i'r ysgol, neu gerllaw. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i Ysgol Gynradd Fairfield eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid, ac aelodau staff. Gall yr ysgol hefyd ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost. Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu i wneud hynny'n ysgrifenedig o fewn y cyfnod a bennwyd.

Penderfynu ar y cynigion

Y Cabinet fydd yn penderfynu ar y cynnig. Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo, gwrthod neu gymeradwyo'r cynigion gydag addasiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cabinet yn rhoi sylw i unrhyw wrthwynebiadau statudol y mae wedi'u derbyn.

Hysbysu ynghylch y Penderfyniad

Ar ôl penderfynu ar y cynigion, hysbysir yr holl bartïon â diddordeb ynghylch y penderfyniad, a gyhoeddir yn electronig ar wefan Cyngor Bro Morgannwg.

Cwestiynau Cyffredin

Pryd bydd fy mhlentyn yn gymwys i gychwyn addysg feithrin?

Mae hawl gan blant i gael lle rhan amser yn y meithrin o ddechrau'r tymor wedi eu pen-blwydd yn dair oed.

Os yw eich plentyn yn 3 rhwng:

1 Ebrill a 31 Awst (cynhwysol) gellir derbyn eich plentyn yn ystod tymor yr hydref dilynol
1 Medi a 31 Rhagfyr (cynhwysol) gellir derbyn eich plentyn yn ystod tymor y gwanwyn dilynol
1 Ionawr a 31 Mawrth (cynhwysol) gellir derbyn eich plentyn yn ystod tymor yr haf dilynol

Gall eich plentyn gychwyn mewn addysg amser llawn yn y mis Medi ar ôl cael ei ben-blwydd yn 4 oed, felly, yn dibynnu ar ei ddyddiad geni, gall fod yn y meithrin am hyd at 2 flwyddyn academaidd.

A fydd pennaeth newydd ar gyfer y meithrin?

Bydd yr uned feithrin yn rhan annatod o'r Cyfnod Sylfaen yn yr ysgol. Bydd cylch gorchwyl Pennaeth yr ysgol gynradd yn cael ei ymestyn i gwmpasu ystod oed estynedig yr ysgol. Bydd cylch gorchwyl cydlynydd y cyfnod sylfaen yn cael ei ymestyn i gwmpasu'r plant oed meithrin.

A fydd gofyn bod y plant meithrin yn gwisgo gwisg ysgol swyddogol?

Y Pennaeth a chorff llywodraethu'r ysgol fydd yn gwneud y penderfyniad hwn.

Beth fyddai'r trefniadau derbyn ar gyfer yr ysgol newydd?

Mae hawl gan blant i gael lle rhan amser yn y meithrin o ddechrau'r tymor wedi eu pen-blwydd yn dair oed. Cyngor Bro Morgannwg yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol, a hynny ym mlwyddyn y meithrin a'r derbyn. Amlinellir y trefniadau derbyn ar dudalen 18 o ddogfen y cynnig hwn. Nid yw mynychu dosbarth meithrin yn golygu bod plentyn yn gallu hawlio lle yn y dosbarth derbyn yn yr un ysgol yn awtomatig. Atgoffir rhieni, os cynigir lle iddynt ar gyfer eu plentyn yn y meithrin, fod rhaid gwneud cais o'r newydd ar gyfer mynediad i ddosbarth derbyn yr ysgol.

A fydd ystod oed estynedig yr ysgol yn golygu ei bod yn cael enw newydd?

Y cynnig a geir yn y ddogfen hon yw estyn ystod oed yr ysgol yn unig. Ni fydd angen i'r ysgol newid ei henw.

A fydd polisïau'r ysgol yn newid i adlewyrchu'r plant oed meithrin newydd a'u hanghenion?

Penderfyniad i'r corff llywodraethu a phennaeth yr ysgol fydd hynny. Bydd yr ysgol yn adolygu ei pholisïau er mwyn sicrhau bod holl blant yr ysgol yn cael eu cynnwys ym mholisïau'r ysgol

Mae fy nhrefniadau gofal plant yn golygu ei bod hi'n bwysig i mi gael lle yn yr ysgol

o'm dewis, sydd y tu allan i'm hardal ddalgylch. Fydd hyn yn cael ei gymryd i ystyriaeth?

Gwaetha'r modd, ni ellir cymryd trefniadau gofal plant i ystyriaeth. Plant y dalgylch fydd y flaenoriaeth uchaf ar gyfer mynediad i'r ysgol bob amser, o'u cymharu â phlant o'r tu allan i'r ardal ddalgylch.

FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD (Sefydlu uned feithrin yn Ysgol Gynradd Fairfield, trwy estyn ystod oed yr ysgol i 3-11 oed)

Mae eich barn chi'n bwysig, rhowch eich barn ar y cynigion i ni os gwelwch yn dda, trwy:

- lenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.valeofglamorgan.gov.uk/fairfieldnursery neu

- ateb y cwestiynau ymgynghori ac ychwanegu eich safbwynt ar y ffurflen hon

Dychwelwch y ffurflen i'r cyfeiriad a nodir ar waelod y ffurflen, os gwelwch yn dda.

Sylwer bod rhaid i unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gyflwynir gynnwys enw a chyfeiriad postio llawn y person sy'n gwneud y sylwadau.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 14 Chwefror 2017.

Gwaetha'r modd, ni fydd y Corff Llywodraethu'n gallu rhoi sylw i ymatebion a dderbynnir wedi'r dyddiad hwn.

Ni fydd ymatebion i'r ymgynghori yn cael eu cyfrif yn wrthwynebiadau i'r cynigion, er y bydd y Corff Llywodraethu yn rhoi sylw iddynt wrth wneud ei benderfyniad.

Ni ellir cofrestru gwrthwynebiadau ond wedi i **hysbysiad statudol** gael ei gyhoeddi.

Gellir gwneud cais am unrhyw ymatebion a dderbynnir o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a gall fod rhaid eu gwneud yn gyhoeddus. Fodd bynnag, byddai unrhyw wybodaeth a fyddai'n golygu bod modd adnabod unrhyw unigolyn, er enghraifft enw, cyfeiriad e-bost a chyfeiriad postio yn cael ei dileu.

Eich Enw:……
Cyfeiriad: ……
……
Côd post: ……
Cyfeiriad e-bost: ……
Dyddiad:……

Gofynnir i chi ddweud wrthyn ni a ydych chi'n ymateb fel:

Rhywun sy'n Perthyn i'r Ysgol ar hyn o bryd fel

1. Rhiant ☐ ……
2. Disgybl ☐
3. Llywodraethwr ☐
4. Aelod o Staff ☐ ……
5. Preswylydd Lleol ☐
6. Arall (nodwch os gwelwch yn dda) ☐ ……

FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD (Sefydlu uned feithrin yn Ysgol Gynradd Fairfield, trwy estyn ystod oed yr ysgol i 3-11 oed)

Cwestiynau

1. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i greu uned feithrin newydd yn Ysgol Gynradd Fairfield o fis Ionawr 2018?

   Ydw ☐ Nac ydw☐

   P'un a ydych chi'n cefnogi'r cynnig neu beidio, eglurwch pam, os gwelwch yn dda.

2. Os hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu gynigion amgen, gofynnir i chi fanylu ar y rhain isod.

Unrhyw sylwadau eraill?

Diolch am eich sylwadau

Ticiwch y blwch isod os ydych am gael eich hysbysu ynghylch cyhoeddi'r adroddiad ymgynghori ☐

Gofynnir i chi ddychwelyd y ffurflen hon erbyn 14 Chwefror 2017, fan bellaf, i;

Rhadbost
Ymgynghori
Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chorfforaethol
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd y Cyngor
Heol Holton
Y Barri
CF63 4RU

Tudalennau Nodiadau

Nodiadau ar y Ddogfen Ymgynghori

Ffurflen Monitro Cydraddoldeb Bro Morgannwg

Rhywedd a Hunaniaeth Rhywedd	
Beth yw eich rhywedd?	☐ Benyw ☐ Gwryw
Adeg eich geni, gawsoch chi eich disgrifio fel?	☐ Benyw ☐ Gwryw ☐ Rhyngryw ☐ Byddai'n well gennyf beidio â dweud
Anabledd	
Ydy eich gweithgareddau o ddydd i ddydd yn cael eu cyfyngu oherwydd cyflwr iechyd meddwl neu gorfforol, salwch neu anabledd sydd wedi parhau, neu sy'n debygol o barhau, am 12 mis neu fwy?	☐ Ydynt - cyfyngir llawer arnynt ☐ Ydynt - cyfyngir rhywfaint arnynt ☐ Nac ydynt ☐ Byddai'n well gennyf beidio â dweud
Oedran	
Beth yw eich dyddiad geni?:	
Hunaniaeth Genedlaethol	
Hunaniaeth Genedlaethol - sut byddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?	
☐ Cymreig / ☐ Seisnig / ☐ Albanaidd / ☐ Gwyddelig (Gog.Iwerddon) / ☐ Prydeinig	
☐ Arall (nodwch os gwelwch yn dda)	☐ Byddai'n well gennyf beidio â dweud
Grŵp Ethnig	
Ethnigrwydd – sut byddech chi'n disgrifio eich grŵp ethnig?	
Gwyn	
☐ Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig (Gog. Iwerddon) /Prydeinig	☐ Gwyddelig
☐ Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig	☐ Unrhyw gefndir gwyn arall (nodwch os gwelwch yn dda):
Grwpiau Ethnig Cymysg / Lluosog	
☐ Gwyn a Du o'r Caribî / ☐ Gwyn a Du Affricanaidd / ☐ Gwyn ac Asiaidd	
☐ Unrhyw gefndir ethnig cymysg/lluosog arall (nodwch os gwelwch yn dda):	
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig	
☐ Indiaidd / ☐ Pacistani / ☐ Bangladeshi / ☐ Tsieineaidd	
☐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall (nodwch os gwelwch yn dda):	
Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig	
☐ Affricanaidd	☐ Caribïaidd
☐ Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribïaidd arall (nodwch os gwelwch yn dda):	
Grŵp ethnig arall	
☐ Arabaidd	

☐ Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch os gwelwch yn dda):
☐ Byddai'n well gennyf beidio â dweud

Yr Iaith Gymraeg				
Gofynnir i chi ddisgrifio'ch gallu o ran y Gymraeg trwy roi tic yn y blwch/blychau perthnasol isod.				
	Deall	**Siarad**	**Darllen**	**Ysgrifennu**
Dim	☐	☐	☐	☐
Sylfaenol	☐	☐	☐	☐
Medrus	☐	☐	☐	☐
Da	☐	☐	☐	☐
Rhugl	☐	☐	☐	☐

Hunaniaeth Rywiol		
P'un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio orau sut rydych yn meddwl amdanoch eich hun?		
☐ Heterorywiol/gwahanrywiol	☐ Hoyw neu lesbiaidd	☐ Deurywiol
☐ Arall	☐ Byddai'n well gennyf beidio â dweud	

Crefydd			
Beth yw eich crefydd?			
☐ Dim crefydd	☐ Cristnogaeth (pob enwad)		☐ Bwdhiaeth
☐ Hindŵaeth	☐ Iddewiaeth	☐ Islam	☐ Siciaeth
☐ Unrhyw grefydd arall (nodwch os gwelwch yn dda):		☐ Byddai'n well gennyf beidio â dweud	

Beichiogrwydd a Mamolaeth	
Ydych chi'n feichiog ar hyn o bryd neu a fuoch yn feichiog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?	☐ Ydw/Do ☐ Nac ydw/Naddo ☐ Byddai'n well gennyf beidio â dweud
A fuoch ar absenoldeb mamolaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?	☐ Do ☐ Naddo ☐ Byddai'n well gennyf beidio â dweud

Priodas a Phartneriaeth Sifil	
Beth yw eich statws cyfreithiol o ran priodas neu bartneriaeth sifil rhwng dau berson o'r un rhyw?	☐ Sengl, hynny yw heb briodi erioed a heb gofrestru erioed mewn partneriaeth sifil rhwng dau berson o'r un rhyw ☐ Priod, ac yn byw gyda'r gŵr/wraig ☐ Wedi gwahanu, ond yn dal yn briod yn gyfreithiol ☐ Wedi ysgaru ☐ Gweddw ☐ Mewn partneriaeth sifil i ddau berson o'r un rhyw ac yn byw gyda'ch partner ☐ Wedi gwahanu, ond yn dal yn gyfreithiol mewn partneriaeth sifil rhwng dau berson o'r un rhyw ☐ Gynt mewn partneriaeth sifil rhwng dau berson o'r un

	rhyw, sydd bellach wedi'i diddymu'n gyfreithiol ☐ Partner sydd wedi goroesi o bartneriaeth sifil rhwng dau berson o'r un rhyw ☐ Byddai'n well gennyf beidio â dweud